**Cyfarfod Llawn 2001 – 2002 (65)**

**Dydd Iau, 2 Mai 2002**

## AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 2**
**Cwestiynau Cyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 3**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ar Adolygiad o'r Flwyddyn Gyntaf o Drefniadau Mynediad am Ddim i Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru - ***Mae'r eitem hon wedi cael ei gohirio tan 21 Mai*

**Eitem 4**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ar Golli Swyddi yng Nghanolfan Alwadau ITV Digital yn Noc Penfro**

**Eitem 5**
**Dadl ar Ganolfan Ewropeaidd Cymru**
***NDM1040* -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn cydnabod arwyddocâd cynyddol yr agenda Ewropeaidd ar gyfer Cymru dros y blynyddoedd nesaf a bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gryfhau ei gynrychiolaeth ym Mrwsel;
2. Yn nodi’r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi 12 mis o rybudd y bydd yn dod â’i aelodaeth o Ganolfan Ewropeaidd Cymru i ben a’r angen am drafodaethau pellach â rhanddeiliaid eraill yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru ynghylch ei dyfodol;
3. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gytuno ar drefniadau priodol

gyda Swyddfa'r Llywydd i gefnogi Aelodau'r Cynulliad a Phwyllgorau'r Cynulliad yn eu hymwneud â sefydliadau Ewropeaidd;
4. Yn cymeradwyo bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi adroddiad ar ganlyniadau'r trafodaethau hynny i'r Cyfarfod Llawn iddo eu hystyried.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

(1)+(2)+(5)
(3)+(4)+(6)+(7)+(8)

**Gwelliant 1 -  Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**
Ym mhwynt 1, ychwanegu ar ôl 'gynrychiolaeth':

'a chynrychiolaeth y Cynulliad Cenedlaethol'

**Gwelliant 2 -  Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**
Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

'Yn galw ar Brif Weinidog Cymru i dynnu'n ôl y llythyr sy'n rhoi rhybudd o fwriad y Llywodraeth i ddod â'i haelodaeth o Ganolfan Ewropeaidd Cymru i ben ymhen deuddeg mis er mwyn sicrhau bod pob opsiwn yn cael ei ystyried cyn cymryd penderfyniad terfynol;

**Gwelliant 3 -  Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**
Ym mhwynt 2, dileu 'Llywodraeth Cynulliad Cymru' a rhoi 'Prif Weinidog Cymru' yn ei le.

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**
Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

'Yn nodi methiant Prif Weinidog Cymru i ddod i gytundeb â Swyddfa'r Llywydd ynghylch trefniadau addas, ar gyfer cefnogi Aelodau'r Cynulliad a Phwyllgorau'r Cynulliad, cyn cymryd y penderfyniad i roi rhybudd bod ein haelodaeth o Ganolfan Ewropeaidd Cymru yn dod i ben.'

**Gwelliant 5 -  Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**
Ym mhwynt 4, dileu ar ôl 'Cymru' a rhoi yn ei le:

' i ymgynghori â'r Pwyllgor Ewropeaidd a Materion Allanol ar y cynlluniau i gryfhau

cynrychiolaeth y Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mrwsel a, phan ddaw'r trafodaethau hyn i ben, cyflwyno cynnig i'r Cyfarfod Llawn i'w gymeradwyo.'

**Gwelliant 6 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn gresynu penderfyniad Prif Weinidog Cymru i roi rhybudd y bydd ein haelodaeth o Ganolfan Ewropeaidd Cymru yn dod i ben heb gyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.'

**Gwelliant 7 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod cyfraniad sylweddol Canolfan Ewropeaidd Cymru ar ran Cymru ym Mrwsel.'

**Gwelliant 8 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn nodi penderfyniad unfrydol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 29 Chwefror 2000 i ymuno â Chanolfan Ewropeaidd Cymru a statws y penderfyniad hwnnw.'

**Eitem 6**
**Dadl a enwebwyd gan Gareth Jones yn unol â Rheol Sefydlog 29**
***NDM1022*** *Gareth Jones (Conwy):*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan reol sefydlog 29.2, yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i ddwyn ymlaen is-ddeddfwriaeth ddrafft i ddiwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995.

Y bwriad yw rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymgynghori ag Awdurdodau Iechyd neu gyrff iechyd statudol priodol eraill pan fyddant yn cael ceisiadau cynllunio i godi ysgolion ar dir halogedig.

Cliciwch yma i weld y Dadansoddiad Cost a Budd - *Ar gael yn Saesneg yn unig.*

**Eitem 7**
**Dadl Fer: *NDM1037* Phil Williams (Dwyrain De Cymru): Llywodraeth Gynhwysol**

**Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

**********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 7 Mai 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**